Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i ddefnydd a rheoleiddio Gwelyau Haul yng Nghymru

Ionawr 2010

Crynodeb Gweithredol

Rwyf yn croesawu adroddiad y Pwyllgor ar ei Ymchwiliad i ddefnydd a rheoleiddio Gwelyau Haul yng Nghymru. Cytunaf yn llwyr ei bod yn fater o bryder arbennig i'r cyhoedd bod plant yn defnyddio salonau heb gael eu goruchwylio. Bu nifer o achosion yn ddiweddar a gafodd gryn sylw oherwydd bod plant a phobl ifanc wedi dioddef niwed o ganlyniad i ddefnyddio gwelyau haul. Mae hyn wedi codi cwestiynau ynghylch pa mor effeithiol yw'r trefniadau rheolaethol presennol ac mae nifer o bobl wedi galw am reoleiddio cyfleusterau lliw haul yn dynnach. Rwy'n bryderus hefyd o glywed am dystiolaeth ddiweddar, sydd â sail gadarn yn ôl pob golwg ac sy'n dangos bod cysylltiad clir rhwng defnyddio gwelyau haul a risg mwy o ddioddef canserau'r croen.

Rwyf yn croesawu prif gasgliadau'r Pwyllgor, sef bod tystiolaeth dda sy'n awgrymu bod defnyddio gwelyau haul yn achosi canser y croen; er nad oes swm sy'n hollol ddiogel, bod plant a phobl ifanc mewn mwy o berygl ac nad yw'r fframwaith rheoleiddiol presennol yn darparu digon o ddiogelwch rhag camddefnyddio gwelyau haul, yn enwedig gan blant a phobl ifanc.

Rwy'n nodi isod fy ymateb i argymhellion unigol y Pwyllgor:

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

1. bod Llywodraeth Cymru'n darganfod oddi wrth Lywodraeth y DU p'un a yw argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Gynhyrchion Defnyddwyr ynglŷn â safonau arbelydriad o welyau haul yn cael eu gorfodi yn y DU ac, os nad ydynt, ei bod yn cyflwyno achos priodol.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog priodol yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i ganfod statws argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Gynhyrchion Defnyddwyr yn y DU ac i ba raddau y mae Safon Brydeinig (BS EN 60335-2-27:2003) yn cael ei orfodi yn y DU. Mae Cyfarwyddyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi, wrth osod tiwbiau uwchfioled newydd, y dylai gweithredwyr sicrhau y gosodir y math cywir ac ailasesu anghenion eu cwsmeriaid o ran faint o belydriad uwchfioled y maent yn ei dderbyn wrth ddefnyddio'r offer.

Goblygiadau Ariannol: - Dim. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am hyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

2. bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i geisio cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno deddfau newydd i drwyddedu a rheoleiddio

cyfleusterau gwelyau haul a'u gweithredwyr a, lle bo angen, i orfodi rhwymedigaethau a chreu troseddau.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn gan fod angen deddfau newydd i reoleiddio cyfleusterau gwely haul gan gynnwys gwahardd pobl dan 18 mlwydd oed rhag eu defnyddio. Mae pob dull deddfwriaethol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r opsiwn o geisio cymhwysedd deddfwriaethol, bu fy swyddogion yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i ddatblygu opsiynau ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol gyda Llywodraeth y DU gan ei gwneud trwy Senedd San Steffan gyda'r bwriad y bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ar gyfer Cymru; ac edrych ar y posibilrwydd y gall Gweinidogion Cymru lunio rheoliadau o dan ddeddfwriaeth sylfaenol sydd eisoes yn bodoli.

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, nodais na allem gau allan y posibilrwydd o drwyddedu. Wedi dweud hynny, ni wnaeth yr Alban ddilyn cynllun cofrestru a thrwyddedu fel yr argymhellwyd gan COMARE [1]. Rwy'n deall bod pryderon ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau, ar gyfer awdurdodau lleol a busnesau, os cyflwynir cynllun trwyddedu. Rwy'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r diwydiant gwely haul ond efallai fod yr opsiynau deddfwriaethol sydd ar gael i mi yn gyfyngedig ac efallai nad ydynt yn cynnwys trwyddedu neu gofrestru. Credaf ar yr olwg gyntaf y gallai fod yn rhesymol efallai i ni wireddu ein hamcanion ar y defnydd o welyau haul trwy fesurau eraill heblaw trwyddedu a chofrestru.

Goblygiadau Ariannol: - Petai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, byddai costau ychwanegol i awdurdodau lleol wrth gynnal arolygiadau ychwanegol o salonau gwely haul a chostau'n gysylltiedig ag unrhyw gamau cyfreithiol a gymerid yn erbyn gweithredwyr sy'n gweithredu'n anghyfreithlon. Er y cynhelir arolygiadau ar hyn o bryd, maent yn anaml fel rheol oni bai fod safle â risg uwch. Buasai'r costau'n debygol o fod yn uwch ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno am y tro cyntaf nes i'r gofynion newydd o ran arolygu busnesau o'r fath gael eu cynnwys yn rhaglenni arolygu presennol yr awdurdodau lleol. Ar sail ffigurau a ddarparwyd gan Gydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol, mae swyddogion yn amcangyfrif mai tua £100,000 a fuasai'r gost trwy Gymru gyfan i'r Awdurdodau Lleol o gyflwyno rheolaethau deddfwriaethol newydd ar ddefnyddio gwelyau haul gan bobl dan 18 mlwydd. Mae'r costau hyn yn cynnwys gorfodi gan yr Awdurdod Lleol, digwyddiadau hyfforddi Swyddogion Gorfodi'r Awdurdodau Lleol a darparu gwybodaeth ac arwyddion, ond nid opsiwn ar gyfer cofrestru a thrwyddedu. Buasai angen trosglwyddo adnoddau i'r Setliad Llywodraeth Leol i dalu am y gwaith ychwanegol a roddid i'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

3. y dylid seilio unrhyw ddeddfau newydd ar argymhellion 1 a 2 trydydd adroddiad ar ddeg COMARE ar 'Yr effeithiau ar iechyd a'r risgiau yn sgil dod i gysylltiad â phelydriad uwchfioled o ddyfeisiau lliw haul'.

Ymateb: Derbyn.

[1] Pwyllgor ar Agweddau Meddygol ar Belydredd yn yr Amgylchedd (COMARE) – Trydydd Adroddiad ar Ddeg "The health effects and risks arising from exposure to ultraviolet radiation from artificial tanning devices." Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, Mehefin 2009.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn gyda'r amod efallai na fuasai'r opsiynau deddfwriaethol sydd ar gael i ni yn rhoi i ni'r hyblygrwydd i gyflwyno cynllun trwyddedu a chofrestru. Gweler yr ymateb i argymhelliad 2 uchod.

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

4. y dylai unrhyw drefn reoleiddio a gyflwynir yng Nghymru osod 18 oed fel yr oed ieuengaf ar gyfer defnyddio gwely haul.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gwahardd defnydd masnachol o welyau haul gan rai dan 18 oed yn cyd-fynd ag argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd a'r Pwyllgor ar Agweddau Meddygol ar Belydredd yn yr Amgylchedd. Mae cyflwyno cyfyngiad oedran sef 18 mlwydd oed hefyd yn trin gwelyau haul yn yr un ffordd â nifer o nwyddau eraill sydd â chyfyngiad oedran e.e. tybaco ac alcohol. Mae 18 oed yn ymddangos yn briodol i mi ac felly rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

5. y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau bod goruchwyliaeth amser llawn gan staff hyfforddedig ar bob safle sy'n darparu cyfleusterau gwelyau haul.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi nodi'n glir o'r blaen fy mod yn bwriadu gwahardd salonau gwely haul heb eu staffio yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor ar Agweddau Meddygol ar Belydredd yn yr Amgylchedd yn argymell y dylai safle gwely haul gael ei staffio trwy'r amser gan staff cymwys hyfforddedig. Os ydym am ddiogelu oedolion a phobl ifanc rhag y peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio gwelyau haul, mae'n bwysig bod staff ar gael mewn salonau gwely haul. Bydd hyn hefyd yn sicrhau y cydymffurfir â'r gwaharddiad ar y rhai dan 18 oed.

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

6. y dylai Gweinidogion Cymru bennu, trwy reoliadau, yr wybodaeth y dylid ei darparu i ddefnyddwyr gwelyau haul, ac y dylid arddangos yr wybodaeth hon yn amlwg mewn cyfleusterau gwelyau haul.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Nododd yr adroddiad fod yr Asiantaeth Ryngwladol dros Ymchwil Canser (IARC) ar 29 Gorffennaf wedi codi dosbarthiad dyfeisiau lliw haul sy'n allyrru pelydriad uwchfioled o fod yn 'debygol o fod yn garsinogenaidd i bobl' i fod yn 'garsinogenaidd i bobl' sef y categori risg uchaf. Mae'n bwysig dangos gwybodaeth i bawb sy'n defnyddio gwelyau haul er mwyn rhybuddio'r cyhoedd o'r risgiau y maent yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwely haul.

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

7. y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau na ddylid caniatáu i gleientiaid ddefnyddio gwelyau haul oni bai eu bod wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac yn ddeallus ar sail gwybodaeth sy'n manylu ar y risgiau iechyd posibl dan sylw.

Ymateb: Nid Wyf yn Derbyn yn Llawn

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn yn gyfan gwbl. Mae angen i mi ystyried yn fanylach fanteision cyflwyno system o'r fath, goblygiadau gofyn i aelodau'r cyhoedd roi cydsyniad ysgrifenedig a beth fuasai'r manteision o ran diogelwch y cyhoedd yn ychwanegol at y manteision a geir trwy wahardd salonau heb eu staffio a mynnu bod rhybuddion yn cael eu dangos mewn salonau gwely haul sy'n cael eu staffio. Nid wyf yn dymuno cyflwyno system heb ei rheoli o ganiatâd ysgrifenedig a roddir ar sail penderfyniad cytbwys onid oes llawer o fanteision o wneud hynny. Rwy'n cytuno y dylid hyrwyddo gwneud penderfyniadau cytbwys ond yn y cyd-destun hwn buasai angen i mi sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei datgelu a bod y sawl sy'n rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig ar sail penderfyniad cytbwys yn deall yr wybodaeth a goblygiadau cytuno (i'r unigolyn a hefyd i'r busnes).

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

8. y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau bod sbectol amddiffynnol yn orfodol i'r rheini sy'n defnyddio gwelyau haul.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n ceisio cynnwys hyn yn y pwerau i wneud rheoliadau. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud beth a allwn trwy ddeddfwriaeth i ddiogelu golwg pobl os ydynt yn dewis defnyddio offer o'r fath.

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

9. y dylai'r drefn reoleiddio bennu cyfarwyddyd i sicrhau bod grwpiau risg uchel yn cael eu nodi a'u bod yn cael eu hannog i beidio â defnyddio gwelyau haul.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Dylid annog pobl sy'n agored i niwed a'r rhai sydd â ffenoteipiau sy'n golygu eu bod mewn perygl i beidio â defnyddio gwelyau haul.

Goblygiadau Ariannol: - Gweler yr ymateb i'r paragraff uchod ar oblygiadau ariannol argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

10. y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau y gwaherddir gwelyau haul rhag cael eu defnyddio mewn canolfannau lliw haul masnachol os nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig ac Ewropeaidd ynglŷn â lefelau arbelydriad gwelyau haul.

Ymateb: Cytuno

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad hwn ond yn derbyn mai mater ydyw i Lywodraeth y DU ei dderbyn a'i ystyried. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU i gyfleu argymhelliad y Pwyllgor iddo ac yn rhoi copi o'i ateb i Gadeirydd y Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: - Dim. Mater i Lywodraeth y DU ei ystyried yw hyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

11. bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, ynghyd â'r awdurdodau perthnasol, p'un a yw unrhyw wybodaeth am fuddiannau iechyd y mae gweithredwyr gwelyau haul yn ei darparu'n groes i ddeddfwriaeth masnachu a hysbysebu sy'n bodoli.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae gan nifer o asiantaethau ran mewn rheoleiddio a hunanreoleiddio hysbysebion camarweiniol. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymchwilio i'r ffordd orau o wireddu'r argymhelliad hwn a cheisio cyngor gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, y Swyddfa Masnachu Teg, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu a'r Sefydliad Safonau Masnach.

Goblygiadau Ariannol: - Mater i Lywodraeth y DU, y Sefydliad Safonau Masnach a Llywodraeth Leol yw hyn, gan weithio o fewn eu hadnoddau presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

12. bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, ochr yn ochr ag Adrannau Iechyd eraill y DU, cynyddu'n sylweddol yr arian y mae'n ei ddarparu ar gyfer yr ymgyrch SunSmart, yn enwedig o ran pobl ifanc..

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion ysgrifennu at y swyddogion cyfatebol yn llywodraethau'r DU a gofyn am eu barn ar yr argymhelliad hwn. Buasai angen ymrwymiad gan bob un o'r pedair gwlad. Byddaf yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor am yr holl ddatblygiadau.

Goblygiadau Ariannol: - Gallai hyn fod â goblygiadau ariannol i wledydd eraill yn y DU. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Edwina Hart MBE OStJ AM **Ionawr 2010**
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol